# PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD A GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
# 16 MEDI 2024

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Llun, 16 Medi 2024.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Y Cynghorwyr: | **Y Cynghorydd Rob Davies (Cadeirydd)**<br>Gillian Brockley, Steve Copple, Ron Davies, Ian Hodge, Paul Johnson, Gina Maddison, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Linda Thew, Roy Wakelam ac Arnold Woolley |
| **HEFYD YN BRESENNOL FEL ARSYLWYR:** | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Chludiant |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Billy Mullin |
| **CYFRANWYR:** | Prif Swyddog (Llywodraethu)<br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd |

## 1. PENODI CADEIRYDD **(Dolen i'r recordiad)**

**PENDERFYNWYD:**

Nodi bod y Cyngor, yn y Cyfarfod Blynyddol, wedi penderfynu penodi'r Cynghorydd Rob Davies fel Cadeirydd y Pwyllgor.

## 2. PENODI IS-GADEIRYDD **(Dolen i'r recordiad)**

Ceisiodd y Cadeirydd enwebiadau ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd.

Derbyniwyd dau enwebiad ar gyfer y Cynghorwyr Ian Hodge a Steve Copple. Yn dilyn pleidlais, penodwyd y Cynghorydd Ian Hodge fel Is-gadeirydd.

**PENDERFYNWYD**:

Penodi'r Cynghorydd Ian Hodge yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

## 3. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO) **(Dolen i'r recordiad)**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

## 4. COFNODION **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 20 Mawrth 2024 fel cofnod cywir.

## 5. RHAGLEN WAITH (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Waith i'w hystyried a chroesawyd unrhyw gwestiynau gan yr Aelodau.

Mewn ymateb i gais i gynnwys eitem mewn perthynas â hyd cyfarfodydd a'r amser a ganiateir i Aelodau siarad, cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i gymryd hyn fel cam gweithredu.

Mewn ymateb i'r cais ar gyfer gosod dyfais amseru yn Ystafell Bwyllgor Delyn, cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i ymchwilio i hyn ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Cefnogwyd argymhellion yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith; a

(b) Rhoi awdurdod i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 6. CYFARFODYDD: COFNODION A THREFNIADAU CYNNAL(Dolen i'r Recordiad)

Wrth gyflwyno'r adroddiad, darparodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd rywfaint o wybodaeth gefndirol i'r rheswm dros gynnig y newidiadau a chyfeiriwyd Aelodau at yr atodiadau, a oedd yn enghreifftiau o'r fformat a ddefnyddiwyd. Roedd y fformat hwn wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer nifer o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac wedi'i dderbyn. Eglurwyd wrth i ragor o gyfarfodydd gael eu cynnal ar ffurf hybrid, roedd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar yr adnoddau o fewn y tîm.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Paul Johnson, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y gellid cynnwys llinell ychwanegol i nodi'r deiliad portffolio - Aelod Cabinet. Gofynnodd y Cynghorydd Johnson hefyd a ddylid gwahanu'r Datganiadau Cysylltiad a'r Datganiadau Chwipio i ddwy linell.

Cefnogwyd argymhellion yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn derbyn y newid i fformat y cofnodion yn unol â'r templed a oedd ynghlwm fel Atodiad 1; ac

(b) Yn dilyn gweithredu'r newid i fformat y cofnodion, darparu pob un o gyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau ar ffurf 'hybrid'.

## 7. <u>AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL</u>

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 2.31pm)

……………………………………..
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy fynd i'r llyfrgell weddarllediadau yn: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home